
Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom	P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 7 Gorffennaf 2025	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	SeneddDCC@senedd.cymru

O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 – 13.40)

3.1 SL(6)626 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2025

(Tudalennau 1 – 3)

[Gorchymyn](#) [Saesneg yn unig]

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–22–25 – Papur 2 – Adroddiad drafft

3.4 SL(6)623 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025

(Tudalennau 4 – 10)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–22–25 – Papur 6 – Adroddiad drafft



3.6 SL(6)625 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025

(Tudalennau 11 – 18)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–22–25 – Papur 10 – Adroddiad drafft

3.8 SL(6)622 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025

(Tudalennau 19 – 24)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–22–25 – Papur 14 – Adroddiad drafft

6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 – 13.55)

6.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygio) 2025

(Tudalen 25)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–22–25 – Papur 37 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 4 Gorffennaf 2025

7 Papurau i'w nodi

(13.55 – 14.00)

7.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Adrodd ar gyfarfodydd rhynglywodraethol

(Tudalen 26)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-22-25 – Papur 38 – Llythyr gan y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, 4 Gorffennaf 2025

SL(6)626 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2025

Cefndir a diben

Fel rhan o'r newid i gerbydau â dim allyriadau ("ZEVs"), roedd Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 ("Gorchymyn 2023") yn sefydlu pedwar cynllun masnachu ledled Prydain Fawr i gyfyngu ar nifer y cerbydau newydd nad ydynt yn ZEVs y gellir eu cofrestru ym Mhrydain Fawr, a'r allyriadau carbon deuocsid o gerbydau o'r fath.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2023 a Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2024 ("Gorchymyn 2024").

Roedd Gorchymyn 2023 a Gorchymyn 2024 yn dirymu ac yn cadw darpariaethau yn Rheoliad (EU) 2019/631 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 17 Ebrill 2019 a oedd yn gosod safonau perfformiad allyriadau carbon deuocsid ar gyfer ceir newydd ac ar gyfer cerbydau masnachol ysgafn newydd ("y Rheoliad"). Gellir parhau i arfer darpariaethau'r Rheoliad at ddibenion monitro a chydymffurfiaeth ar gyfer blynyddoedd cydymffurfio blaenorol.

Mae'r Rheoliad yn gyfraith a gymathwyd sy'n gosod targedau allyriadau CO2 penodol blynyddol ar gyfer gweithgynhyrchwyr sy'n cofrestru ceir newydd a cherbydau masnachol ysgafn yn y DU. Cyfrifir targedau ar sail maint fflyd cerbydau'r gwnethgynhyrchydd, yn unol â fformiwla tair rhan a geir yn Atodiad I'r Rheoliad. Os yw'r gweithgynhyrchydd yn mynd dros ei darged, mae'n atebol i dalu premiwm allyriadau gormodol. Mae targedau allyriadau CO2 penodol gweithgynhyrchwyr o'r Rheoliad yn llywio'r llinellau sylfaen o ran carbon deuocsid ar gyfer Gorchymyn 2023

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y Gorchymyn hwn yn unioni'r anghysondeb a nodwyd yn null yr Adran Drafnidiaeth ("DfT") o ddefnyddio rhai gwerthoedd yr UE ar gyfer y targedau allyriadau carbon deuocsid penodol gan mai dim ond gwerthoedd y DU y mae cwmplas y Rheoliad yn caniatáu eu defnyddio wrth gyfrifo'r targedau perthnasol, yn groes i fwriad y polisi a'r dehongliad a gyflwynwyd mewn canllawiau. Mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi gweithgynhyrchwyr i dderbyn y targed allyriadau CO2 penodol uwch naill ai o'r dull sy'n deillio o'r UE (fel y'i cyfathrebwyd yn flaenorol gan yr Adran Drafnidiaeth) neu ddull sy'n deillio o'r DU (fel y'i darllenir yn fanwl o'r Rheoliad).

Unwaith y bydd y monitro a'r cydymffurfiaeth wedi'u cwblhau ar gyfer 2021-2023 yn y DU a 2024 yng Ngogledd Iwerddon, ni fydd y Rheoliad fel y mae'n rheoleiddio allyriadau CO2 yn berthnasol mwyach. Felly mae'r Gorchymyn hwn *"yn darparu mesur dros dro i gywiro'r anghysondeb yn y modd y gosodwyd targedau ar gyfer blynyddoedd cydymffurfio 2021-2023 a 2024, cyn i'r rhwymedigaethau lleihau CO2 yn Rheoliad (EU) 2019/631 gael eu disodli'n llawn o 2025 ymlaen"*.



Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Fawrhydi cyn iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Gall y Senedd annilysu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd. Gall y tair deddfwrfa arall hefyd annilysu'r Gorchymyn, yn unol â'r rheolau ar gyfer annilysu sy'n gymwys i bob un o'r deddfwrfeydd hynny.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraff 2.2):

"Gan y bydd yr offeryn hwn yn destun craffu gan Seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog."

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol (ym mharagraff 2.3):

"Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, comisiynodd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig y Pwyllgor Newid Hinsawdd ("CCC") ar y cyd i roi cyngor ar yr offeryn hwn yn unol ag adran 48 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Cyhoeddwyd y cyngor hwn gan y CCC ar eu gwefan. [Llythyr: Advice on zero-emissions vehicle \(ZEV\) mandate and carbon dioxide regulations for new cars - Climate Change Committee.](#)"

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol



Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
27 Mehefin 2025



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 3

Eitem 3.4

SL(6)623 - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025

Cefndir a diben

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Yn fras, mae'r broses yn gymwys i brosiectau seilwaith arwyddocaol sef prosiectau ynni, trafndiaeth, gwastraff a dŵr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth yn Neddf 2024 ynghylch gofynion cyn gwneud cais a gwneud cais am gydsyniad seilwaith. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r weithdrefn archwilio sy'n dilyn cais, ac, yn benodol, maent yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag awdurdod archwilio, paratoi ar gyfer ceisiadau a'u harchwilio a phrosesau ar ôl archwilio.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 16 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae Rheoliad 2 yn diffinio "cais" fel "cais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 32 o Ddeddf 2024 ac mae'n cynnwys unrhyw amrywiad y cytunir arno". Fodd bynnag, nid yw "amrywiad y cytunir arno" wedi'i ddiffinio ac nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch beth sy'n cyfrif fel amrywiad y cytunir arno a phwy y mae angen iddo gytuno iddo yn y Rheoliadau. Os yw'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025 dylid cyfeirio'n benodol at hyn yn y diffiniad o "cais".

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Yn rheoliad 2(1), rhoddir diffiniad o "tir" ar gyfer y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ceir diffiniad arall o "y tir" ym mharagraff 3 o Atodlen 2. Felly, dylai'r diffiniad o "tir" yn rheoliad 2(1) rybuddio'r darllenydd am y ffaith hon, o bosibl drwy ddefnyddio ymadrodd fel ", ac eithrio'r hyn a nodir yn Atodlen 2,".

3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 6(2), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "any change of or to the examining authority" ond mae'r testun Cymraeg yn nodi " unrhyw newid i'r awdurdod archwilio".

4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 6(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "The person who is the examining authority or the chair of the panel who is the examining authority...". Ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "Rhaid i'r person sy'n cyflawni rôl yr awdurdod archwilio neu gadeirydd y panel sy'n cyflawni rôl yr awdurdod archwilio...". Mae hyn yn rhoi'r potensial ar gyfer dryswch nid yn unig rhwng y ddau destun, ond hefyd yn y testun Cymraeg a allai arwain at amwysedd ynghylch cymhwyso'r rheoliad.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Rheoliad 11(4)(b) yn cyfeirio'r darllenydd at "rheoliad 24(2)" ond nid yw'n nodi'r Rheoliadau sy'n cynnwys y rheoliad hwnnw. Dylai hefyd nodi "o Rheoliadau Caffael Gorfodol 2025" ar ôl hynny i gwblhau'r cyfeiriad hwnnw.

6. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae Rheoliad 14(5) yn gosod gofynion ynghylch arddangos hysbysiad ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â "datblygiad llinellol". Nid yw'r Rheoliadau'n rhoi ystyr i'r term hwn ac felly nid yw'n glir ar wyneb y Rheoliadau beth yw "datblygiad llinellol".

7. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn rheoliadau 15(1) a 26(1)(a), defnyddir "ymchwiliad" heb gyfeiriad blaenorol at "ymchwiliad lleol". Mewn mannau eraill mae bob amser yn cyfeirio at "ymchwiliad lleol" y tro cyntaf mewn darpariaeth cyn defnyddio ymadroddion fel "ymchwiliad" neu "yr ymchwiliad" wrth gyfeirio'n ôl at yr ymchwiliad lleol hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn tybio y dylai rheoliadau 15(1) a 26(1)(a) gyfeirio at "ymchwiliad lleol" ond gofynnir am eglurhad.

8. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.



Yn rheoliad 15(2), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "The examining authority may require the person to prepare a written statement of that evidence." Ond yn y testun Cymraeg mae ystyr "may" wedi'i fynegi drwy ddefnyddio "gall" sydd ond yn awgrymu'r posibilrwydd y gallai'r awdurdod archwilio ei gwneud yn ofynnol llunio datganiad ysgrifenedig o'r fath – "Gall yr awdurdod archwilio ei gwneud yn ofynnol...". Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod defnyddio "gall" yn y ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer cyfreithiol yn ôl disgresiwn i'r awdurdod archwilio ei gwneud yn ofynnol llunio datganiad ysgrifenedig. Yn yr achos hwnnw, mae Arddulliadur Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi mai naill ai "caiff" neu "caniateir" yw'r dewis priodol yn y cyd-destun hwn yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth.

9. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 17, mae gwahaniaeth rhwng y rhifau yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r ddarpariaeth wedi'i rhifo fel rheoliad "17", ond yn y testun Cymraeg mae wedi'i rhifo'n anghywir fel rheoliad "17-(1)" er nad oes paragraff (2) yn y rheoliad hwnnw.

10. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliadau 20 a 21 yn caniatáu gwneud "cyflwyniadau cloi" mewn perthynas â gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol yn y drefn honno. Diffinnir "cyflwyniadau cloi" at ddiben rheoliad 20 ond nid at ddiben rheoliad 21. Nid yw'n glir felly a fwriedir i "cyflwyniadau cloi" fod â'r un ystyr yn rheoliad 21 ag sydd ganddo yn rheoliad 20.

11. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio hysbysu am enw unrhyw asesydd, cyfreithiwr neu fargyfreithiwr a benodir i'w gynorthwyo. Mae rheoliad 25(2) yn nodi bod yn rhaid hysbysu am faterion y mae unrhyw asesydd wedi ei benodi i gynorthwyo mewn perthynas â hwy, ond nid oes gofyniad tebyg mewn perthynas ag unrhyw fargyfreithiwr neu gyfreithiwr sydd wedi ei benodi.

12. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 27(6), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, defnyddir y geiriau "must specify" wrth nodi bod yn rhaid i'r hysbysiad bennu dibenion y cyfarfod ac ati. Ond yn y testun Cymraeg nodir bod yn rhaid i'r hysbysiad "nodi" dibenion y cyfarfod ac ati. Mae hyn oherwydd bod y testun Cymraeg wedi defnyddio "nodi" i fynegi ystyr "specify" ond "pennu" yw'r gair sydd wedi'i safoni ar gyfer "specify" gan Eirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

13. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.



Yn rheoliad 28(11)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r groesgyfeiriad yn cyfeirio at "paragraph (7)" ond yn y testun Cymraeg mae'n nodi "ym mharagraff (11)", sy'n anghywir.

14. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn rheoliad 33, mae'n nodi bod yn rhaid "iddo anfon at y partïon a chanddynt fuddiant... ddatganiad ysgrifenedig" ar ôl cyfeirio'n gynharach yn y rheoliad hwnnw at yr "awdurdod archwilio" ac at "Weinidogion Cymru". Fodd bynnag, ymddengys ei fod yn gosod rhwymedigaeth ar yr "awdurdod archwilio" drwy ddefnyddio rhagenw yn hytrach nag ar "Weinidogion Cymru", sy'n peri dryswch i'r darllenydd ynghylch ystyr y rheoliad. Yn hyn o beth, defnyddiwyd rhagenwau lluosog drwy gydol y Rheoliadau hyn yn y testun Saesneg wrth gyfeirio at "the examining authority" er bod canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn argymhell defnyddio rhagenw unigol "it" yn hytrach na rhagenw lluosog "they" wrth gyfeirio at gyrff cyhoeddus fel awdurdod lleol, tribiwnlys neu bwyllgor.

15. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 34(1)(b), mae'r cyfeiriad yn anghyflawn gan ei fod yn cyfeirio at "adran 60(3)(a)" heb nodi'r Ddeddf sy'n cynnwys yr adran honno. Yn rheoliad 35, mae'r cyfeiriadau at ddarpariaethau eraill a geir hefyd yn adran 60 yn cyfeirio at y Ddeddf drwy nodi "o Ddeddf 2024". Felly, mae hefyd yn ddull anghyson o ddisgrifio cyfeiriadau a geir yn yr un Ddeddf. Yn yr un modd, mae paragraffau 1(d) ac (e) a 2(a) a (b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn cyfeirio at amryw adrannau, ond ni nodir unrhyw Ddeddf mewn perthynas â'r adrannau hyn. Tybir eu bod yn cyfeirio at ddarpariaethau Deddf 2024 ond dylid nodi hyn yn benodol.

16. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 3(b), nid yw'r diwygiad i reoliad 3(3) o Reoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006 yn gwneud synnwyr. Mae'r is-baragraffau presennol yn rheoliad 3(3) o Reoliadau 2006 wedi'u rhifo o (a) i (c). Felly, nid yw'n gwneud synnwyr mewnosod is-baragraff newydd wedi'i rifo fel (i) sy'n cynnwys disgrifiad o ddiwygiad arall i'w fewnosod "ar ôl is-baragraff (c)". Ymddengys y dylai paragraff 3(b) o Atodlen 1 nodi "ym mharagraff (3), ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder-" ac yna testun yr is-baragraff newydd (d).

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.



Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
2 Gorffennaf 2025



SL(6)625 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025

Cefndir a diben

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn creu cyfundrefn gydsynio unedig ar gyfer prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr tiriogaethol. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau sy'n gweithredu ac yn darparu manylion am y prosesau sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2024.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer prosesau a gweithdrefnau cyn gwneud cais, a'r modd y mae Gweinidogion Cymru i ymdrin â cheisiadau am gydsyniad seilwaith mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol, neu'n rhan ohono.

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaeth mewn perthynas â, ymhlith pethau eraill, hysbysiad, a derbyn hysbysiad, o ddatblygiad arfaethedig, ymgynghori a chyhoeddusrwydd cyn ymgeisio, gwybodaeth i'w chynnwys mewn hysbysiadau, gofynion cyffredinol ar gyfer gwneud cais, dilysu cais, ymgynghori ag ymgynghoreion statudol a phersonau eraill, adroddiadau ar yr effaith lleol, adroddiadau effaith ar y môr, a'r weithdrefn mewn perthynas ag amrywio ceisiadau.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r ymgynghoreion y mae'n rhaid ymgynghori â nhw cyn rhoi cydsyniad seilwaith yn ôl y math o ddatblygiad y gwneir cais amdano.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Mae'r 22 pwynt canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(i) – ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires

Mae'r rhagair yn rhestru un o'r pwerau galluogi fel adran 132(2) o Ddeddf 2024. Fodd bynnag, mae adran 141(3) a (4)(k) o Ddeddf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol bod offerynnau statudol



sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 132 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r offeryn hwn, yn hytrach, yn dilyn y weithdrefn negyddol.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "datblygiad AEA" a'r "Rheoliadau AEA" mae cyfeiriadau at Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007. Fodd bynnag, mae'r Offerynnau Statudol hyn wedi'u diffinio fel "y Rheoliadau AEA Cynllunio" a'r "Rheoliadau AEA Morol" yn y drefn honno yn y Rheoliadau hyn. Felly, dylid bod wedi defnyddio'r termau diffiniedig hynny wrth gyfeirio at yr offerynnau hynny. Gwnaed hyn wrth gyfeirio at ddeddfwriaeth ddiffiniedig arall megis Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 y cyfeirir ati fel "Deddf 2024" yn y diffiniad a thrwy gydol y Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae diffiniad "datganiad amgylcheddol" yn rheoliad 2(1) yn cynnwys cyfeiriad at "y Rheoliadau Morol". Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddiffinio yn y rheoliadau ac yn hytrach mae'n ymddangos ei fod yn cyfeirio at "y Rheoliadau AEA Morol" sydd wedi'u diffinio.

4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 2(1), mae diffiniad "prosiect seilwaith arwyddocaol" yn nodi bod ganddo'r ystyr sydd ganddo yn "Rhan 1" o Ddeddf 2024. Fodd bynnag, nid yw'n glir a ddylai hyn gyfeirio at "adran 1" yn lle hynny fel sy'n wir yn yr un diffiniad yn rheoliad 2 o Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2025.

5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 10(a)(i), (iii), (iv), (v) a (vii) yn ei gwneud yn ofynnol i geisydd roi hysbysiad i gategoriâu penodol o bersonau "a ystyrir yn briodol gan y ceisydd". Mae hyn yn cynnwys unrhyw awdurdod cynllunio, cyngor cymuned, Aelod o'r Senedd, Aelod o Dŷ'r Cyffredin, neu unrhyw berson arall y mae'r ceisydd yn ystyried eu bod yn briodol. Er bod yn rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad i unrhyw un yn y rhestr o bersonau "y mae'r ceisydd yn ystyried eu bod yn briodol", mae hyn yn rhoi disgresiwn eang i'r ceisydd i beidio ag ystyried unrhyw un o'r personau hyn yn "briodol" ac mae'n ymddangos ei fod yn tanseilio'r gofyniad i roi hysbysiad. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod 10(a)(vii) yn darparu categori cyffredinol yn yr un modd â rheoliad 8(h), er enghraifft, gall canlyniad y gofynion fel y'u drafftwyd yn 10(a)(i), (ii) (iv) a (v) olygu nad yw'r un o'r personau hynny yn cael hysbysiad yn ôl disgresiwn y cais, cyn cyflwyno cais.



6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 10(a) yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gael ei gyhoeddi "am o leiaf 7 niwrnod" mewn un neu fwy o bapurau newydd, o leiaf un cyfnodolyn pysgota priodol, a Lloyd's List, cyn cyflwyno'r cais. Mewn cyferbyniad, mae rheoliad 26 yn ymdrin â chyhoeddi hysbysiadau lle derbynnir cais yn wahanol. Mae Rheoliad 26(4) yn nodi bod angen i hysbysiad papur newydd fod "am isafswm cyfnod o un wythnos" gan ddechrau o fewn 5 niwrnod gwaith yn dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r cais gael ei dderbyn yn gais dilys. Yn yr un modd, mae gofyniad i gyhoeddi mewn cyfnodolyn pysgota "am isafswm cyfnod o un wythnos". Fodd bynnag, nid oes amserlen wedi'i rhestru ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad yn Lloyd's List, yn wahanol i reoliad 10(a). Felly, nid yw'n glir pa mor hir y byddai angen cyhoeddi hysbysiad yn Lloyd's List o dan reoliad 26(4)(b).

7. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 11(f), yn y testun Cymraeg, mae ystyr y term "issued" wedi'i fynegi fel "cyhoeddi" ond yng ngeiriau agoriadol rheoliad 11 mae'r un term wedi'i fynegi fel "dyroddi". Hefyd, defnyddiwyd "cyhoeddi" i fynegi ystyr "published" yn rheoliad 11(e). Felly, mae terminoleg y testun Cymraeg yn anghyson wrth gyfeirio at gyhoeddi hysbysiadau yn rheoliad 11. "Dyroddi" yw'r gair safonol a argymhellir ar gyfer "issue" gan Eirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 14(1), mae'r geiriau "yn unol ag adran 29(4) o Ddeddf 2024" yn ddiangen. Mae diffiniad "hysbysiad derbyn" yn rheoliad 2(1) yn nodi ei fod yn hysbysiad a roddir o dan adran 29(4) o Ddeddf 2024.

9. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 17(2), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, nodir manylion y bennod mewn cromfachau yn syth ar ôl yr ail gyfeiriad at Ddeddf Ynni 2004 ar ddiwedd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u nodi yn y testun Saesneg.

10. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 19(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n dechrau gyda "securing" ond nid oes ymadrodd cyfatebol i gyfleu'r ystyr hwnnw yn y testun Cymraeg.



11. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 24(f), mae'r geiriau "o dan reoliad 2(1) o'r Rheoliadau AEA Morol" yn ddiangen oherwydd bod y diffiniad o weithgaredd a reoleiddir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn yn nodi bod gan "gweithgaredd a reoleiddir" yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau EIA Morol.

12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 26(3) sy'n ymwneud â chyhoeddi hysbysiadau, yn nodi "Pan fo hysbysiad, heb unrhyw fai, yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn i'r cyfnod o 42 o ddiwrnodau ddod i ben, caiff y gofyniad ei drin fel pe cydymffurfiwyd ag ef os cymerir camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac, os oes angen, ei amnewid". Mae hyn yn ymddangos yn anghyson â'r dull yn rheoliad 7(3) sy'n nodi "Pan fo'r hysbysiad safle, heb fod unrhyw fai ar y ceisydd, yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn i'r cyfnod o 42 o ddiwrnodau ddod i ben, caiff y ceisydd ei drin fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff perthnasol os yw wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad safle ac, os oes angen, ei amnewid". Mae'r drafftio yn 7(3) yn ymddangos yn llawer cliriach o ran ei fwriad. Ymddengys mai dim ond mewn amgylchiadau "heb unrhyw fai" y mae'r ddarpariaeth yn 26(3) yn darparu amddiffyniad i'r hysbysiad. Mewn achosion lle caiff yr hysbysiad, yn syml, ei symud ymaith, bydd yn anodd canfod a oedd hynny gyda bai neu heb unrhyw fai, ac felly a fyddai darpariaethau 26(3) yn berthnasol. Os oedd hysbysiad yn amlwg wedi'i ddifwyno'n fwriadol ac yn faleisus, byddai 7(3) yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau rhesymol i'w ddiogelu/ei amnewid. I'r gwrthwyneb, ymddengys nad yw'n ofynnol diogelu/amnewid, yn ôl 26(3) pe bai'r hysbysiad wedi'i ddifwyno â "bai" gan berson. Fodd bynnag, fe fyddai pe gellid profi ei fod wedi'i ddifwyno heb unrhyw fai. Mae hyn yn ymddangos yn anghyson ar gyfer darpariaethau sydd ill dau wedi'u cynllunio, ar yr olwg gyntaf, i sicrhau y gall pobl ar y safle weld hysbysiadau safle.

13. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 26(5), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg mae'n nodi "beginning the day after" ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "gan ddechrau â'r diwrnod" canlynol. Yn ogystal, mae'r disgrifiadau o ddechrau cyfnodau o amser yn amrywio yn y testun Saesneg gan ei fod fel arfer yn nodi "beginning with the day" mewn mannau eraill yn y Rheoliadau hyn ac eithrio yn y ddarpariaeth hon ac yng ngeiriau agoriadol rheoliad 32(1) lle defnyddiwyd "beginning the day". Mae'r testun Cymraeg yn amrywio oherwydd yn rheoliadau 4 ac 11(f) defnyddiwyd "sy'n dechrau drannoeth" i gyfleu "beginning with the day" ond defnyddiwyd "sy'n dechrau â thrannoeth" mewn mannau eraill megis yn rheoliadau 27 a 31.



14. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 27(3), mae cyfeiriad anghywir at "baragraff 12 o'r Rheoliadau hyn". Fodd bynnag, nid oes paragraff (12) yn rheoliad 27, ac ymddengys ei fod yn cyfeirio at reoliad 12 yn lle hynny. Yn ogystal, mae'r geiriau "o'r Rheoliadau hyn" hefyd yn ddiangen.

15. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 28(c)(iii), mae cyfeiriad at "baragraff (1)(c)(ii) o'r rheoliad hwn". Nid yw rheoliad 28 yn cynnwys paragraff (1). Os yw'n cyfeirio at reoliad 28(c)(ii) dylid ei ddisgrifio fel is-baragraff (ii).

16. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 29(2)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Cymraeg, mae'r cysylltair "a" ar ddiwedd rheoliad 29(2), i ddangos y berthynas rhwng is-baragraffau (a) a (b). Fodd bynnag, nid oes "and" yn y lle cyfatebol yn y testun Saesneg.

17. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn Rhan 7, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, ym mhennawd y Rhan honno, mae'n nodi "Part 7", ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "Rhan 1".

18. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 32(3)(b), nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad at "rheoliad 7 o Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2025" yn gywir. Nid yw'n glir a ddylai gyfeirio'r darlennydd at reoliad 8 neu ryw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn.

19. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn yr Atodlen, ym mharagraff (g), yng Ngholofn 2, paragraff (iii), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a Chymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "the grass surface of a playing pitch **on a playing field** with..." ond yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "arwyneb cyfansawdd ar lain chwarae yn lle..." (*'the grass surface of a playing pitch with...'*). Mae arwyddocâd ychwanegol i'r gwahaniaeth hwn oherwydd bod "llain chwarae" yn derm a ddifinnir ar gyfer paragraff (g) yn "Dehongli'r tabl".

20. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.



Yn yr Atodlen, yn "Dehongli'r tabl", ym mharagraff (b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, yn y paragraff sy'n dechrau gyda "Reference to the height of development" mae'n nodi "the highest part of the surface adjacent to it" ar ddiwedd y paragraff. Fodd bynnag, yr ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "rhan uchaf yr arwyneb **yn union** gerllaw'r datblygiad". Yn hyn o beth, mae'r testun Saesneg yn anghyson oherwydd ei fod yn defnyddio'r ymadrodd "immediately adjacent" yn gynharach yn yr un paragraff.

21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn yr Atodlen, yn y Dehongliad o'r Tabl, ym mharagraff (f), rhoddir yr un ystyr i'r term "maes awyr" ag yn adran 82(1) o Ddeddf Meysydd Awyr 1986. Fodd bynnag, mae hefyd wedi'i ddiffinio gyda'r ystyr hwnnw yn adran 143(1) o Ddeddf 2024. Nid yw'n glir pam nad yw "maes awyr" wedi'i ddiffinio trwy gyfeirio at Ddeddf 2024, yn wahanol i ddiffiniadau fel "awdurdod harbwr".

22. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn yr Atodlen, yn y Dehongliad o'r Tabl, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a Chymraeg o ran rhifo'r paragraffau. Yn y testun Saesneg, mae'r diffiniad o "Distribution Network Operators" yn ymddangos ym mharagraff (g), ond yn y testun Cymraeg, nid oes paragraff (g), felly mae'r diffiniad yn ymddangos ym mharagraff (f) yn syth ar ôl y diffiniad o "maes awyr".

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru. Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 2 Gorffennaf 2025



SL(6)622 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025

Cefndir a diben

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2024 yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad seilwaith. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud cais am gydsyniad seilwaith.

Mae Rhan 4 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaeth ynghylch penodi awdurdod i archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith ("yr awdurdod archwilio") ac ynghylch agweddau penodol ar y broses archwilio. Mae Rhan 5 o Ddeddf 2024 yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd, neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd, gan awdurdodau cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith a darparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith (fel y'u diffinnir yn adran 124 o'r Ddeddf).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r canlynol—

- ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Weinidogion Cymru (rheoliad 3),
- ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdodau cynllunio (rheoliad 4),
- ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (rheoliad 5),
- ffioedd am gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir (rheoliad 6),
- ffioedd am arfer pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir (rheoliad 7),
- ffioedd am hysbysu am gais arfaethedig (rheoliad 8),
- ffioedd am wneud cais (rheoliad 9),
- ffioedd am adroddiad ar yr effaith leol (rheoliad 10),
- ffioedd am adroddiad effaith ar y môr (rheoliad 11),
- ad-dalu ffioedd nas gwariwyd (rheoliad 12),



- ffioedd sy'n daladwy i awdurdodau cyhoeddus penodedig ac awdurdodau cynllunio perthnasol am ddarparu gwasanaethau heblaw am wasanaethau cyn gwneud cais (rheoliad 13), a
- ffioedd sy'n daladwy i awdurdodau perthnasol am geisiadau ar gyfer dileu gofyniad cydsynio a thybio cydsyniadau (rheoliad14).

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodir y deg pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 2(1), a yw'n angenrheidiol cynnwys diffiniad o'r term "blwyddyn ariannol", oherwydd bydd y diffiniad o'r term hwnnw at ddibenion y Rheoliadau hyn eisoes wedi'i awgrymu yn rhinwedd Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019?

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliadau 3(3)(d) a (7)(b) yn cynnwys sawl cyfeiriad at "y gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol". Fodd bynnag, mae rheoliad 3(4)(b) yn cyfeirio at y "gwasanaethau perthnasol" yn hytrach na'r "gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol". Hefyd, mae'r term "gwasanaethau cyn gwneud cais" wedi'i ddiffinio fel un sydd ag ystyr penodol gan reoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae'r drafftio'n anghyson, a gellid dadlau bod gan "y gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol" ystyr mwy cyfyngedig yn rheoliad 3 o gymharu â'r term "gwasanaethau perthnasol". Mae'r un amrywiad rhwng y termau "y gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol" a'r "gwasanaethau perthnasol" hefyd yn codi mewn sawl man yn rheoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Mae rheoliadau 3(6) a 4(6) yn cynnwys gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn nodi "21 days beginning the day after the date". Fodd bynnag, yr ystyr sy'n cael ei gyfleu gan y testun Cymraeg yw "21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw". Mae'r testun yn y ddwy iaith yn gyfwerth o ran ystyr lle defnyddir yr un ymadrodd yn rheoliadau 4(8) a 5(8).



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 16

Legislation, Justice and Constitution Committee

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd am ystyried cysondeb drafftio'r testun Saesneg wrth ddisgrifio dechrau cyfnodau o amser oherwydd bod y termau "beginning the day", "beginning on the day" a "beginning with the day" oll yn cael eu defnyddio mewn amrywiol ddarpariaethau yn y Rheoliadau hyn, megis rheoliadau 3(9), 5(6) ac (8), 13(5) a 14(6).

O ganlyniad, nid yw'n glir a yw hyn yn cael ei wneud yn fwriadol oherwydd bod gwahaniaeth yn yr ystyr neu oherwydd drafftio anghyson (gweler hefyd ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru ynghylch disgrifio dechrau cyfnodau o amser sy'n argymhell yn gyffredinol defnyddio'r term "beginning with [the day]" yn Saesneg yn WLW 8.3).

4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliadau 3(9), 4(8) a 5(8) yn nodi y bydd "y ffi yn cael ei gweinyddu drwy anfoneb sy'n daladwy ...". At hynny, mae rheoliad 14(3) yn nodi y bydd "yr awdurdod perthnasol yn rhoi manylion i'r ceisydd...". Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r termau "yn cael" ac "yn rhoi" yn y darpariaethau hyn yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol i weithredu mewn modd penodol neu'n cael ei ddefnyddio fel amser dyfodol y berfau perthnasol. Yn hyn o beth, mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid osgoi defnyddio "yn" wrth osod rhwymedigaethau, ac y dylid defnyddio ymadroddion fel "rhaid" neu "sydd i fod" yn y cyd-destun hwnnw, neu'r presennol dangosol ar gyfer darpariaethau datganiadol (gweler WLW 3.14 (4) a (5)).

5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Mae rheoliad 5(9)(b) yn cynnwys gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn nodi "withhold the services", ond yr ystyr sy'n cael ei gyfleu gan y testun Cymraeg yw i "gadw'r gwasanaethau cyn gwneud cais perthnasol yn ôl".

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgyiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 7(1) yn cyfeirio at "adran 126(1) o'r Ddeddf" lle mae'n ymddangos ei fod yn cyfeirio at Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. Fodd bynnag, mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 wedi'i diffinio at ddibenion y Rheoliadau hyn fel "Deddf 2024", sef y term a ddefnyddir mewn cyfeiriad cynharach yn rheoliad 7(1).

7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgyiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliadau 10(2)(a) a (b) yn cynnwys cyfeiriadau at "adran 34(2)(a) neu (b)", ond mae'r cyfeiriadau hyn yn anghyflawn gan nad ydynt yn nodi bod yr adran berthnasol i'w chael yn Neddf 2024. Mae hyn hefyd yn digwydd yn rheoliad 11(2)(a) a (b) mewn perthynas â chyfeiriadau at "adran 34(2)(b)" ac "adran 37(b)".

At hynny, mae dryswch pellach ynghylch y cyfeiriad at "adran 37(b)" gan nad oes adran o'r fath yn Neddf 2024. Felly, nid yw'n glir a yw'n cyfeirio at adran wahanol o'r Ddeddf honno.



8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 13(5) yn cynnwys croesgyfeiriad anghywir at "yr hysbysiad y cyfeirir ato **ym mharagraff (5)**". Fodd bynnag, ymddengys y dylai'r frawddeg hon gyfeirio'r darllenydd at baragraff (4) o reoliad 13.

9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 13(7), diffinnir y term "awdurdod cynllunio perthnasol" at ddibenion rheoliad 13. Fodd bynnag, caiff yr un term ei ddefnyddio mewn sawl man arall hefyd, megis rheoliadau 4 a 10 o'r Rheoliadau hyn. Felly, dim ond yn rheoliad 13 y bydd gan y term "awdurdod cynllunio perthnasol" yr ystyr a ddiffinnir yn rheoliad 13, ac nid yw'r un term wedi'i ddiffinio ar gyfer rheoliadau 4 a 10 o'r Rheoliadau hyn.

At hynny, mae adran 123 o Ddeddf 2024 yn cynnwys diffiniad gwahanol o'r un term ar gyfer Rhan 7 o'r Ddeddf honno. O ganlyniad, mae ystyr y term "awdurdod cynllunio perthnasol" yn aneglur yn rheoliadau 4 a 10 o'r Rheoliadau hyn.

10. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Dylai'r cyfeiriad yn y pennawd italig ar dudalennau 1 a 4 fod yn gyson â'r testun yn ail baragraff y rhagair sy'n nodi'r gofyniad statudol i'r offeryn hwn gael ei osod ar ffurf drafft gerbron y Senedd. Fodd bynnag, mae'r pennawd italig yn cyfeirio at "adran 141(3) a 141(4)(h) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024" ond dim ond at "adran 141(3) o'r Ddeddf" honno y mae ail baragraff y rhaglith yn cyfeirio.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2 Gorffennaf 2025




Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 18

Legislation, Justice and Constitution Committee

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1009/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

4 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Dal a Thrin Dofednod

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr ar 23 Mehefin i roi gwybod ichi am fy mwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau i ddarparu eglurder i'r diwydiant dofednod, a'u cwmnïau dal cysylltiedig, ynghylch y gofynion cyfreithiol sy'n gymwys o ran dal dofednod yn ystod gweithrediadau cludo.

Rwyf bellach wedi rhoi fy nghydsyniad i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau"). Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: <https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/ws-ld17280-cy.pdf>

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth gludo a gweithrediadau cysylltiedig ar eithrio ieir, a thyrwyn sy'n pwysu 5 kg a llai, o'r gwaharddiad ar godi anifeiliaid wrth eu coesau. Pan fydd ieir, a thyrwyn sy'n pwysu 5 kg a llai, yn cael eu dal wrth eu coesau, rhaid iddynt gael eu dal, eu codi a'u cario gyda'r ddwy goes (nid un goes). Ar gyfer tyrcwn sy'n pwysu mwy na 5 kg gwaherddir eu codi neu eu cario ar eu pen i lawr, boed hynny trwy ddal y coesau neu fel arall. Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ar 1 Gorffennaf ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 22 Gorffennaf 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 19

**Committee for the
Scrutiny of the First Minister**

Mike Hedges, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad
Drwy e-bost

04 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Adrodd ar gyfarfodydd rhnglywodraethol

Yn sesiwn ddiwethaf y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ('y Pwyllgor') ar 28 Mawrth 2025, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar 'Cysylltiadau a phrosesau rhnglywodraethol'. Yn dilyn y sesiwn honno, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog i egluro'r hyn yr oedd y Llywodraeth yn ei wneud i gyflymu'r broses o adrodd ar gyfarfodydd rhnglywodraethol, fel bod gwybodaeth ar gael cyn gynted â phosibl i gefnogi gwaith craffu Pwyllgorau.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cael ymateb gan y Prif Weinidog, a hoffai dynnu eich sylw at yr ymateb a ddarparwyd i gwestiwn 2 yn yr atodiad, o ystyried y Cytundeb Cysylltiadau Rhngsefydliadol sy'n bodoli rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru - a rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth fonitro'r ffordd y caiff ei weithredu.

Yn gywir



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
CraffuPW@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCraffuPW
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
ScrutinyFM@senedd.wales
senedd.wales/SeneddScrutinyFM
0300 200 6565

